

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.

Watson Joinery Contractors a Llanrwst Interiors



Dymunaf gyflwyno fy hun, **Dewi Prys-Watson** ydw i o Dan y Benar, Dolwyddelan.

Mae fy nheulu yn cynnwys; Leisa, fy ngwraig amyneddgar, dau o blant sef Iago Dafydd a Modlen Ilid, dau bysgodyn aur o'r enw Tomos a Jac a dwy iâr, Magi a Martha. Mae Leisa yn gweithio'n llawn amser yn **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)** fel swyddog maes ac rydym ni hefyd yn rhedeg y fferm deuluol yng Nghefn Brith. Ar hyn o bryd mae gennym ni 325 o ddefaid mynydd Cymreig a 35 o Wartheg Duon Cymreig Pedigri.

Rydw i'n saer coed ac wedi bod yn rhedeg **'Watson Joinery Contractors'** ers 26 mlynedd. Rydym ni'n cynnig nifer fawr o wahanol wasanaethau adeiladu a saernïaeth sy'n amrywio o waith adnewyddu i adeiladau newydd.

Bues i'n gweithio fel prentis am bedair blynedd mewn ffatri gwneud ceginau yn yr hen ysgol yng **Nghorwen**. Yna, yn 1991 cefais gyfle i weithio yn Ystâd Grosvenor yng Nghaer. Fy nyletswyddau oedd cynnal ac adnewyddu adeiladau a thai fferm. Treuliais i'r rhan fwyaf o'r haf yn 1992 yn atgyweirio a sbleisio stablau pinwydden byg y Dduges!

Heddiw, gyda'm hen ffrind Peter, rydym ni'n rhedeg **Llanrwst Interiors a Blooming Blinds**. Siop fechan ydy hi ar Stryd Watling, Llanrwst, sy'n cynnig syniadau unigryw a cheginau, ystafelloedd ymolchi a chysgodlenni o safon. Gan ein bod ni'n fusnes teuluol rydym ni'n cynnig gwasanaeth personol gyda phrofiad helaeth o weithio gyda cheginau, ystafelloedd ymolchi a gwaith sy'n ymwneud ag adeiladu a saernïaeth.



Rydw i'n ffodus iawn fy mod i mewn sefyllfa lle'r ydw i'n mwynhau fy ngwaith. Mae gweithio fel saer coed wedi dod â boddhad mawr imi a sicrwydd o waith.

Ffôn: 01492 641816

Facebook:

Llanrwst Interiors

Ebost:

dewi.watson

@btinternet.com

Dyfyniad gan gwsmer - Rydym ni wedi prynu cegin ac ystafell ymolchi gan Dewi ac mae hefyd wedi gwneud gwaith adeiladu inni. Mae o yn sicr yn werth aros amdano ac mae'n rhoi gwerth am arian. Mae ansawdd ei waith a'i allu i sylwi ar fanylion, ynghyd â'i ymdrechion diddiwedd i blesio ei gwsmeriaid, yn golygu ein bod ni'n gallu argymhell Dewi yn hyderus i unrhyw un.